OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 567

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

## RHAN 6

**Cyd-drefnu asesiadau**

**26.**—(1) Pan fo, mewn perthynas â datblygiad AEA, ofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn ogystal â'r gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol, rhaid i'r awdurdod cynllunio perthnasol (neu Weinidogion Cymru, yn ôl y digwydd) sicrhau pan fo'n briodol bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r asesiad o'r effaith amgylcheddol yn cael eu cyd-drefnu.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd" ("*Habitats Regulations Assessment*") yw asesiad o dan reoliad 61 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.